Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# RHEOLI PYSGODFA CREGYN GLEISION

# BAE AC ABER CONWY

# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## a gyhoeddir yn unol ag

# IS-DDEDDF 13A HEN BWYLLGOR PYSGODFEYDD MÔR GLOGLEDD ORLLEWIN LLOEGR A GOGLEDD CYMRU (CREGYN GLEISION – RHEOLI'R BYSGODFA)

**MAE LLYWODRAETH CYMRU'N HYSBYSU,** yn unol ag Is-ddeddf 13a Hen Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru [1], bod y gwlâu cregyn gleision *(Mytilis edulis)* yn yr ardal a ddiffinnir isod ("yr Ardal") **ar gau** o ran pysgota am gregyn gleision **o 00:01 ar 1 Medi 2024 tan 23:59 ar 31 Awst 2025.**

Ni chaiff unrhyw berson, heb awdurdodiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru o flaen llaw, gymryd cregyn gleision o wely neu ran o wely o gregyn gleision, nac aflonyddu arnynt na'u tynnu oddi yno, o fewn yr Ardal yn ystod y cyfnod a nodir.

**Yr Ardal**

Yr ardal a gaiff ei chau gan yr Hysbysiad hwn yw'r ardal o Fae ac Aber Conwy sydd o dan y marc gorllanw ac a amgaeir gan linell a dynnir rhwng pwyntiau A, B ac C fel y nodir yn y tabl isod a'r bont reilffordd dros Afon Conwy.

| | Lledred | Hydred |
|---|---|---|
| A | 53° 20.341'N | 003° 52.790'W |
| B | 53° 17.461'N | 003° 54.949'W |
| C | 53° 16.672'N | 003° 53.760'W |

Mae'r cyfeiriadau hyn yn seiliedig ar ddatwm WGS(84).

Rhoddir yr hysbysiad hwn o dan awdurdod Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru.

***Dyddiad yr hysbysiad: 30 Awst 2024***

[1] Mae Is-ddeddf 13A yr hen NWNWSFC wedi'i harbed, ac y mae yn awr yn weithredol fel pe bai wedi'i gwneud gan Weinidogion Cymru mewn Offeryn Statudol, yn rhinwedd erthygl 13(3) ac Atodlen 4 Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn rhif 1, Diwygiadau Canlyniadol, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (SI 2010/630 (C.42)), hynny i'r graddau y gallai fod wedi'i gwneud gan Weinidogion Cymru mewn Offeryn Statudol.


**Nodiadau:**

1. Mae'r uchod yn gymwys i unrhyw bysgota am gregyn gleision o fewn yr <u>Ardal</u>. Mae unrhyw bysgota am gregyn gleision, at unrhyw ddiben a thrwy unrhyw ddull, o fewn yr ardal sydd wedi'i chau wedi'i wahardd am y cyfnod a nodir uchod, oni cheir awdurdodiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru o flaen llaw yn unol ag Is-ddeddf 13A(3) Hen Bwyllgor Pysgodfeydd Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

2. Gwneir hyn at ddibenion rheoli pysgodfeydd a'r bwriad yw gwarchod a diogelu'r stoc o gregyn gleision. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyngor gwyddonol y dylid cau'r Ardal o ran pysgota cregyn gleision at y dibenion hynny ac mae wedi ymgynghori ar y mater yn unol â darpariaethau Is-ddeddf 13A.

3. Tynnir sylw pysgotwyr ac eraill at fodolaeth deddfwriaeth arall (yn ymwneud â physgodfeydd ac fel arall, yn rhai domestig ac yn rhai Ewropeaidd) sy'n gymwys yn yr ardal a ddiffinnir.

4. Nodir yr Ardal, er gwybodaeth yn unig, wedi'i lliwio'n goch ar y map isod sy'n dwyn y teitl "Seaward Boundary of the Closed Area".




## RHAGOR O WYBODAETH

Gallwch gael rhagor o hysbysiadau a gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r mater uchod drwy gysylltu â:

Is-adran Môr a Pysgodfeydd,
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3 – Cwrt Cedrwydden
Parc Busnes Havens Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro SA73 3LS
E-bost: milfordhavenfisheriesoffice@llyw.cymru